



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau achos busnes y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy



Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 278/2022

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2022

Yn disodli dogfen ganllawiau: rhif 227/2018 and 264/2020

Canllawiau achos busnes y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Cynulleidfa

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau esgobaethol, a sefydliadau addysg uwch.

Trosolwg

Bydd y canllawiau a'r templedi yn helpu'r rhai sy'n datblygu achosion busnes i'w hystyried gan y Gyfarwyddiaeth Addysg.

Camau i'w cymryd

Dylid defnyddio'r canllawiau wrth baratoi achosion busnes er mwyn cael arian cyfalaf a refeniw o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:

Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 257672

e-bost: cymunedaudysgucynaliadwy@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn

llyw.cymru/rhaglen-cymunedau-dysgu-cynaliadwy

Dogfennaucysylltiedig

Templed achos busnes y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (2022)

Canllaw budd i'r gymuned (2018)

Canllawiau cyhoeddusrwydd ar gyfer prosiectau Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (2020)

Cynnwys

1.Cyflwyniad	3
2.Y broses gwneud cais	8
3.Y broses asesu	22
4.Y broses cymeradwyo prosiect	23
5.Monitro a gwerthuso prosiect.....	32

Mae'r atodiadau canlynol wedi'u darparu ar wahân – nid ydynt yn y ddogfen hon:

Atodiad 1a: Templed achos busnes cyllid cyfalaf

Atodiad 1b: Templed achos busnes cyllid y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC)

Atodiad 2: Templed diwygiedig y rhaglen amlinellol strategol

Atodiad 3: Tabl buddion y rhaglen

Atodiad 4: Fframwaith opsiynau – enghraifft wedi'i chwblhau (cam achos amlinellol strategol)

Atodiad 5a: Tabl buddion y prosiect i ysgolion a ariennir gan gyllid cyfalaf

Atodiad 5b: Tabl buddion y prosiect i ysgolion a ariennir gan gyllid MBC

Atodiad 6: Tabl buddion y prosiect i addysg bellach

Atodiad 7: Templed arfarnu opsiynau (enghraifft wedi'i chwblhau)

Atodiad 8a: Templed arfarnu opsiynau (gwag)

Atodiad 8b: Templed gwerthuso opsiynau ar gyfer prosiectau MIM yn ystod cam SOC (gwag)

Atodiad 9: Safon costau a maint

Atodiad 10a: Templed cost yr achos busnes amlinellol

Atodiad 10b: Templed cost yr achos busnes llawn

Atodiad 11: Ffurflen wybodaeth am y prosiect

Atodiad 12: Budd i'r gymuned – ffurflen wybodaeth am y prosiect (canllawiau ac enghraifft wedi'i chwblhau)

Atodiad 13: Templed a chanllawiau ar gyfer adroddiad cau cyllid cyfalaf

Atodiad 14: Rhagamcan cyllido

Atodiad 15: Ffurflen amrywio

Atodiad 16a: Canllawiau Carbon Sero-Net

Atodiad 16b: Templed Carbon Sero-Net

1. Cyflwyniad

1.1 Cyd-destun

Caiff y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ei darparu gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach ac esgobaethau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r canllawiau hyn er mwyn dangos gofynion achos busnes penodol y Rhaglen.

Dylai'r canllawiau hyn gael eu darllen ar y cyd â [Llyfr Gwyrdd](#) a [Public sector business cases using the five case model: update guidance](#) Trysorlys EM.

1.2 Cefndir y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Cynrychiolodd y buddsoddiad cyntaf (Band A) yn y Rhaglen Ysgolion ac Addysg y 21^{ain} Ganrif fuddsoddiad o £1.4 biliwn dros y cyfnod o bum mlynedd yn gorffen 2018/19. Mae ardaloedd pob un o'r 22 Awdurdod Lleol wedi elwa ar y rhaglen seilwaith fawr hon, sydd wedi helpu i ailadeiladu ac ailwampio dros 150 o ysgolion a cholegau.

Dechreuodd tranche dau (Band B) ym mis Ebrill 2019 a chafodd ei ehangu i gynnwys colegau addysg bellach, felly ailenwyd y Rhaglen yn Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif. Ym mis Ionawr 2022 ailenwyd y Rhaglen yn Gymunedau Dysgu Cynaliadwy. Bydd £2.3 biliwn arall yn cael ei fuddsoddi mewn seilwaith ysgolion a cholegau fel rhan o'r Rhaglen hon, gan ddefnyddio cyllid cyfalaf a refeniw. Er mwyn cefnogi cyflawnadwyedd a fforddiadwyedd rhaglenni unigol partneriaid cyflawni, mae cyfradd ymyrraeth grant Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau cyfalaf bellach yn 65% o'u cost. Caiff cangen refeniw'r rhaglen ei hariannu 81% gan Lywodraeth Cymru, a chostau cyfalaf cysylltiedig cynlluniau a ariennir gan refeniw yn cael eu hariannu 65%.

Bydd ysgolion ffydd ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn derbyn cyfradd ymyrraeth grant o 85% ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw a chyfalaf.

Hefyd, er mwyn cefnogi cyfleusterau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai mewn unedau cyfeirio disgyblion, bydd cyfradd ymyrraeth Llywodraeth Cymru yn cynyddu i 75% ar gyfer cynlluniau cyfalaf, gyda phartneriaid cyflawni yn gyfrifol am y 25% sy'n weddill o'r costau.

Bydd trawsnewid addysgol yn ganlyniad hollbwysig o hyd i'n buddsoddiad ym Mand B y Rhaglen. Rydym yn cydnabod hefyd ei bod yn eithriadol o bwysig inni roi sylw i gyflwr ein hadeiladau ysgol a choleg. Felly, y ddwy flaenoriaeth ar gyfer Band B yw:

Amcan Buddsoddi Un – darparu seilwaith addysgol effeithlon ac effeithiol a fydd yn bodloni'r galw presennol am leoedd a'r galw yn y dyfodol erbyn 2024.

- Caiff yr ôl-gostau cynnal a chadw ar gyfer yr ysgolion a'r colegau a ddewiswyd ar gyfer Band B eu lleihau o leiaf 50% (yn seiliedig ar y dybiaeth bod oddeutu 50% o'r prosiectau yn y Rhaglen yn darparu asedau newydd i gymryd lle asedau presennol)
- Nid oes unrhyw adeiladau categori D yn yr ystad
- Gwellu tua 25% o adeiladau cyflwr Categori C i Gategori A neu B
- Darparu'r nifer cywir o leoedd ar gyfer:
 - addysg cyfrwng Cymraeg
 - addysg cyfrwng Saesneg

- Mynd i'r afael â materion digonolrwydd lle bo'n berthnasol.
- Gweithio tuag at Adeiladau Sector Cyhoeddus Sero-Net yn unol ag Ymrwymïadau Lleihau Carbon Llywodraeth Cymru.

Amcan Buddsoddi Dau – defnyddio seilwaith ac adnoddau i'r eithaf i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ein cymunedau erbyn 2024. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau hyblygrwydd ein hasedau fel bod cymaint â phosibl o ofod a chyfleusterau ar gael i'n rhanddeiliaid.

- Ein dyhead yw bod cyfleusterau sy'n derbyn buddsoddiad yn ymrwymo i sicrhau bod asedau ar gael i'r gymuned eu defnyddio, gan gynnwys (ond nid dim ond) mynediad at raglenni a gwasanaethau cymorth sy'n hyrwyddo cadernid cymunedol ac sy'n cyfrannu at drechu tlodi, os yw'r galw yno yn lleol.
- Mae 10% o'r ysgolion/ colegau sy'n derbyn cyllid o'r Rhaglen wedi cyd-leoli gwasanaethau cyhoeddus ar y safle os oes galw lleol amdanynt.

Yn benodol:

- A yw'r ysgolion neu'r colegau dan sylw mewn cyflwr gwael?
- A yw'r cynlluniau'n cyfrannu at ddarpariaeth effeithlon ddigonol?
- A yw'r cynlluniau'n sicrhau mwy o ddefnydd gan y gymuned?

Y rheswm am hynny yw er mwyn sicrhau bod ein seilwaith addysg o safon dderbyniol. Lle mae anghenion addysgol wedi'u nodi (ee ysgolion mewn bandiau isel) bydd sylw'n cael ei roi i hynny fel rhan o'r buddsoddi a bydd gwelliannau angenrheidiol yn cael eu pennu'n amod ariannu.

Ym mhob achos, caiff prosiectau unigol o fewn y rhaglen eu hasesu ar sail:

- I ba raddau y maent yn cyd-fynd yn strategol â blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
- Gwerth am Arian
- A oes modd eu cyflawni (fforddiadwy ac amserol)
- Fforddiadwyedd.

Yn wyneb yr amgylchedd economaidd heriol, mae'n bwysig bod arian o bob ffynhonnell yn cael ei ystyried. Bydd Band B yn cael ei ariannu drwy gyfuniad o gyllid cyfalaf a chyllid refeniw. Ar gyfer Band B y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau, yn ogystal â'r cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y rhaglen, y bydd yna ffrwd o gyllid refeniw a fydd yn galluogi buddsoddiad o tua £500 miliwn, gan gynnwys y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Bwriad y cyllid hwn yw cynyddu'r adnoddau sydd ar gael inni i gefnogi seilwaith ysgolion a cholegau.

Ar gyfer prosiectau sydd am ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, neu lle mae angen mwy o gyngor ar sut i ddefnyddio'r canllawiau ar gyfer prosiectau Model Buddsoddi Cydfuddiannol, e-bostiwch MIMMailbox@gov.wales

Mae pob Achos Busnes a gyflwynir wedi'i seilio ar Raglen Amlinellol Strategol sy'n rhoi darlun cyffredinol o strategaethau awdurdodau lleol / sefydliadau addysg bellach unigol. Wedyn gellir cymeradwyo prosiectau unigol ar yr amod bod Achos Busnes boddhaol wedi dod i law.

I brosiectau gwerth mwy na £5 miliwn, caiff yr Achosion Busnes eu cyflwyno mewn tri cham

- Achos Amlinellol Strategol

- Achos Busnes Amlinellol
- Achos Busnes Llawn

I brosiectau gwerth llai na £5 miliwn caiff yr Achos Amlinellol Strategol, yr Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn eu disodli gan un ddogfen, sef yr Achos Cyfiawnhad Busnes.

1.3 Newidiadau i'r broses

Yn sgil adborth, rydym wedi lleihau'r angen i ailadrodd gwybodaeth sydd eisoes wedi'i chynnwys ar gamau achos busnes blaenorol, oni fyddant wedi newid. Ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, mae rhai gweithgareddau achos busnes yn digwydd yn gynharach yn y broses, h.y. nodir yr opsiwn a ffeirir yn yr Achos Amlinellol Strategol ac nid yr Achos Busnes Amlinellol.

Rydym yn gweithredu ar egwyddor o wella'n barhaus, a byddem yn gwerthfawrogi'ch sylwadau ar y canllawiau hyn. Disgwyliwn adolygu'r canllawiau hyn bob dwy flynedd.

1.4 Trosolwg o'r broses

Bydd pob Achos Busnes yn cael ei seilio ar y pum maes allweddol sy'n sail i'r Broses Gwell Achos Busnes (y Model Busnes Pum Achos).

Yr Achos Strategol	Sut mae'r cynnig yn cyd-fynd yn strategol â blaenoriaethau'r llywodraeth/ blaenoriaethau lleol? Beth yw'r achos o blaid newid ac oes yna amcanion buddsoddi CAMPUS clir?
Yr Achos Economaidd	Beth yw'r opsiynau er gwireddu'r amcanion buddsoddi a pha opsiwn sy'n rhoi'r gwerth gorau posibl am arian?
Yr Achos Masnachol	Sut mae modd dod i gytundeb ag asiantau cyflawni? Beth yw'r strategaeth gaffael a'r trefniadau masnachol ar gyfer y buddsoddiad arfaethedig? Beth yw'r cynllun Budd i'r Gymuned? A ystyriwyd polisi Cyfrifon Banc y Prosiect? A gaiff Cyfrif Banc Prosiectau ei ddefnyddio neu a nodwyd rhesymau cryf dros beidio â defnyddio un?
Yr Achos Ariannol	A yw'r cynnig yn fforddiadwy? Beth yw'r ffynonellau arian cyfatebol a a sut ymdrinnir â'r buddsoddiad o safbwynt

	cyfrifyddu?
Yr Achos Rheoli	Sut eir ati i reoli'r gwaith o gyflawni'r cynllun a'r buddion oes gyfan?

Rhoddir sylw manwl i'r pum maes hyn ar bob cam o broses yr achos busnes.

- Bydd yr **Achos Amlinellol Strategol** yn canolbwyntio ar y cyfiawnhad strategol (yr Achos Strategol), amcanion buddsoddi'r prosiect (yr Achos Strategol), y rhesymau wrth wraidd cwtdog'r rhestr hir yn rhestr fer o opsiynau, a'r 'opsiwn a ffefrir' ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw (yr Achos Economaidd), cost amlinellol y prosiect (yr Achos Ariannol) a'r strwythur rheoli arfaethedig (yr Achos Rheoli).
- Bydd yr **Achos Busnes Amlinellol** yn canolbwyntio ar y strategaeth fasnachol (yr Achos Masnachol), y dadansoddiad manwl o'r arfarniad opsiynau a buddion, ac ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw byddai hynny wedi'i gwblhau yn yr Achos Amlinellol Strategol (yr Achos Economaidd), manylion yr arian cyfatebol a'r proffil gwariant (yr Achos Ariannol). Dim ond os bydd yr Achos Strategol wedi newid ers cytuno ar yr Achos Amlinellol Strategol yr ailedrychir ar yr Achos Strategol.
- Ar gyfer prosiectau ac ariennir gan gyfalaf bydd yr **Achos Busnes Llawn** yn canolbwyntio ar gostau'r tendr oni fydd rhywbeth wedi newid ers cytuno ar yr Achos Busnes Amlinellol. Yn yr un modd ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, bydd yn canolbwyntio ar gyflawni'r Cap Fforddiadwyedd a darparu'r ffurflen safonol ar gyfer Cytundeb Prosiect (gan gynnwys Gofynion Adeiladu a Manyleb Lefel Gwasanaeth yr Awdurdod).
- I brosiectau llai, mae'r **Achos Cyfiawnhad Busnes** yn ymdrin â'r meysydd hyn i gyd gyda'i gilydd.

Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai y bydd yn bosibl cyfuno Achosion Busnes, a chyflwyno Achos Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol ar y cyd neu Achos Busnes Amlinellol/Achos Busnes Llawn ar y cyd (i prosiectau ac ariennir gan gyfalaf). Mae hyn yn briodol i Achosion Busnes cymharol syml (h.y. rhai nad ydynt yn ddadleuol, achosion lle mae adeiladau'n cael eu disodli ar sail tebyg am debyg, ac ati) neu fuddsoddiadau is eu gwerth.

Yn ogystal, byddwn yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i sicrhau bod Unedau Cyfeirio Disgyblion (a lleoliadau EOTAS eraill lle y bo'n berthnasol) yn cael eu hystyried yn eu cynigion Band B.

2. Y broses gwneud cais

2.1 Cefndir

Mae achosion busnes yn mapio cyfnodau datblygu eich prosiect ac yn darparu torbwyntiau fel bod modd gwneud penderfyniadau allweddol.

Gan fod penderfyniadau gwahanol yn cael eu gwneud ar bob cam, mae angen lefelau gwahanol o wybodaeth yn gefn i'r achos.

I adlewyrchu'r gwahanol ofynion gwybodaeth, crëwyd templedi ar gyfer cyllid cyfalaf a refeniw sy'n gofyn cwestiynau allweddol a fydd yn ein galluogi i gasglu'r wybodaeth briodol am bob cam o'r broses.

Dylai'r holl wybodaeth berthnasol gael ei chynnwys yng nghorff y ddogfen. Ar wahân i'r Templed Arfarnu Opsiynau, Tabl Buddion y Prosiect, Templed Cost y Prosiect, y Ffurflen Wybodaeth am y Prosiect a'r Rhagamcan Cyllido, a atodir – ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw dylid atodi Achos Busnes Amlinellol Cam 1 ac Achos Busnes Llawn Cam 2 Cwmni Partneriaeth Addysg Gymraeg (WEPCo). Bydd unrhyw ychwanegiadau/atodiadau eraill yn cael eu diystyru. Dylid rhifo tudalennau achosion busnes hefyd.

2.2 Rhaglen Amlinellol Strategol

Mae'r Rhaglenni Amlinellol Strategol wedi'u dyfeisio fel eu bod yn help i ddatblygu a chytuno ar raglenni sy'n unol â strategaeth/ strategaethau y cytunwyd arnynt. Mae'r ddogfen hon yn crisialu diben y buddsoddiad ar lefel strategol.

Er bod y canllawiau hyn yn ymdrin yn bennaf â'r Achos Amlinellol Strategol, Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn, ar adegau efallai y bydd rhaid ichi newid eich Rhaglen Amlinellol Strategol i adlewyrchu newid mewn cyfeiriad, neu angen a nodir am gynnydd neu leihad mewn adnoddau.

Dyma'r broses ar gyfer newid o'r fath:

- Codi'r mater gyda'r cyswllt yn Llywodraeth Cymru drwy flwch negeseuon e-bost y Rhaglen: 21stcenturyschools@llyw.cymru
- Cyflwyno ffurflen sy'n egluro pwrpas y newid a goblygiadau hynny i'r amcanion, yr opsiynau a'r cyllid. Cyfeiriwch at **Dampled Diwygiedig y Rhaglen Amlinellol Strategol (Atodiad 1)**.
- Caiff y cais hwn ei ystyried gan Banel Buddsoddi'r Gyfarwyddiaeth Addysg a bydd unrhyw argymhelliad i gymeradwyo yn cael ei ystyried gan y Gweinidog Addysg am gymeradwyaeth derfynol.

Bydd gofyn hefyd i chi gwblhau **Tabl Buddion y Rhaglen (Atodiad 3)** i nodi'r sefyllfa bresennol a'r effaith y bydd eich opsiynau gwahanol yn ei chael.

2.3 Achos Amlinellol Strategol

Yn gynnwys yn y broses, prif bwrpas yr Achos Amlinellol Strategol yw:

- sefydlu'r angen i fuddsoddi
- arfarnu'r prif opsiynau o ran cyflenwi gwasanaethau
- darparu ffordd ymlaen a argymhellir neu a ffefrir i'w dadansoddi ymhellach (cyllid refeniw)
- paratoi a gwerthuso'r rhestr hir o opsiynau o fewn yr achos economaidd (cyllid cyfalaf)
- argymhell ffordd ymlaen a ffefrir, ynghyd â chostau dangosol, i gael eu dadansoddi'n fanylach yn yr Achos Busnes Amlinellol.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu adeiladu ar ddogfennau strategaeth lleol a llywodraethol er mwyn cyflwyno'r achos o blaid newid yn yr achos strategol. Er enghraifft, er mwyn bod yn gydnaws â:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Symud Cymru Ymlaen
- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Y polisi iaith Gymraeg
- Strategaeth Tlodi Plant
- Cymwys am Oes
- Y cynnig gofal plant 30 awr
- Grant cyfalaf ar gyfer maint dosbarthiadau babanod
- Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) - mae'n bwysig iawn bod eich cynlluniau'n cyd-fynd â'r WESP ar gyfer eich ardal. Nodwch sut y byddwch yn diwallu anghenion lleol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu'n ehangu/symud ymlaen ar hyd y continwmm.
- Cynlluniau Datblygu Lleol
- Niferoedd y disgyblion
- Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Nodwch y dylai'r Achos Amlinellol Strategol gael ei baratoi yn unol â'r canllawiau arfer gorau a roddir yn [Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM](#).

Yn ystod Band A gweithredodd y rhaglen broses gyllido mewn dau gam fel bod modd i rai o'r costau ar gyfer gweithgareddau cymwys yr aed iddynt ar y cam Achos Busnes Amlinellol gael eu rhyddhau yn dilyn cymeradwyaeth Weinidogol.

Ar gyfer Band B mae'r ymarfer hwn wedi'i ymestyn fel bod modd gwneud taliadau ar y cam Achos Amlinellol Strategol a'r cam Achos Busnes Amlinellol er mwyn i'r rhaglen gael ei chyflawni'n well.

Gallai'r costau ar gyfer gweithgareddau cymwys gynnwys:

- Cost arolygon o'r safle, gan gynnwys ecoleg
- Acwsteg
- Ymchwiliad o'r ddaear
- Costau cyn adeiladu megis ffioedd dylunio, cynllunio, a rheoli prosiect a chostau.

2.3.1. Crynodeb gweithredol

Dylai hwn fod yn grynodeb byr o'ch canfyddiadau. Dylai gwmpasu'r canlynol:

- Beth ydych chi eisiau ei wneud?
- Beth yw'r amcangyfrif o'r gost?
- Beth yw'r amserlen gwblhau arfaethedig?
- Pam mae angen ichi ei wneud?
- Beth gaiff ei gyflawni ar ffurf buddion o ran cyflwr, capasiti a lleihau costau cynnal a chadw?
- Ydych chi wedi ystyried y canllawiau yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion? A oes angen i chi gynnal ymgynghoriad a chyhoeddi hysbysiad statudol? Os felly, a fydd hyn yn effeithio ar eich amserlenni?

2.3.2 Achos strategol

Mae hon yn un o elfennau pwysicaf y ddogfen hon, a dylai nodi'r canlynol yn glir:

- Ffit Strategol
- Yr achos o blaid newid

Gweler y **Templed Achosion Busnes (Atodiad 1)** i gael rhestr lawn o'r cwestiynau i'w hystyried o dan Ffit Strategol a'r Achos o Blaid Newid.

2.3.3 Achos economaidd

Mae'r Achos economaidd yn cael llawer o'i wybodaeth o [Lyfr Gwyrdd Trysorlys EM](#).

Ar bob cam o'r broses achos busnes, bydd gofyn i chi gwblhau **Tabl Budd i'r Ysgol** neu'r **Sefydliad Addysg Bellach (Atodiadau 5 a 6)** i nodi'r sefyllfa bresennol a'r effaith y bydd eich opsiynau gwahanol yn ei chael.

Pwrrpas yr Achos Economaidd ar y cam Achos Amlinellol Strategol yw nodi'ch rhestr hir o opsiynau a'i chwto'i'n rhestr fer, neu yn achos prosiect a ariennir gan gyllid refeniw, gyfiawnhad o blaid 'adeilad newydd'.

I wneud hyn, mae'n bwysig eich bod yn nodi'ch ffactorau llwyddiant tyngedfennol. Fel arfer, efallai y byddai'r rhain yn cynnwys:

- A yw'r opsiynau a nodwyd ar y rhestr fer yn cyd-fynd â strategaethau lleol / cenedlaethol?
- A ydynt yn darparu gwerth da am arian?
- A oes modd cyflawni'r opsiynau?
- A oes modd eu gwireddu o fewn y ffrâm amser?
- A yw'r opsiynau yn fforddiadwy?
- A yw'r opsiynau yn dderbyniol yn gymdeithasol / yn wleidyddol?
- A ydynt yn darparu gwell deilliannau i ddysgwyr?
- A ydynt yn ei gwneud yn bosibl i'r gymuned leol ddefnyddio adnoddau/cyfleusterau fel cyfleusterau a meysydd chwaraeon, gan ei gwneud yn fwy cynaliadwy?
- A ydynt yn cefnogi gwahanol ddulliau o addysgu a dysgu?
- A ydynt yn cefnogi materion llesiant disgyblion ac yn sicrhau gwell deilliannau i ddysgwyr, gan gynnwys disgyblion difreintiedig?
- Ydyn nhw'n cefnogi dysgwyr sy'n cerdded a beicio i'r ysgol?

Dylai pob opsiwn gael ei asesu yn erbyn yr amcanion buddsoddi a'r ffactorau llwyddiant tyngedfennol, a chael ei gario ymlaen neu'i ddiystyru fel sy'n briodol. Dylai'r asesiad Gwerth am Arian ystyried, i'r graddau posibl, gostau gweithredol parhaus fel y gofyniad i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion ar sail pellter.

Mae'n dda o beth roi sylw i'r cwestiynau hyn mewn gweithdy. Dylai'r rhai sy'n bresennol gynrychioli'r grwpiau y mae'r prosiect yn effeithio arnynt, yn ogystal ag aelodau'r tîm prosiect. Mae'n bwysig eich bod yn nodi pwy oedd yn bresennol yn y gweithdy a gynhaliwyd i lunio'r rhestr hir o opsiynau a'ch bod yn cofnodi pryd y cynhaliwyd y gweithdy.

Dylai pob opsiwn gynnwys y canlynol o leiaf:

- disgrifiad byr o'r opsiwn;
- manteision ac anfanteision pob opsiwn;
- y casgliad y daethpwyd iddo ynglŷn â'r opsiwn;
- y rheswm y tu cefn i unrhyw benderfyniad a wneir, yn enwedig lle mae opsiwn yn cael ei ddiystyru.

O ran cynhyrchu a dadansoddi eich rhestr hir o opsiynau, mae'r fframwaith opsiynau'n golygu bod modd ystyried amrywiaeth eang o opsiynau ac mae'n darparu methodoleg i ddatblygu rhestr fer o opsiynau i gael eu dadansoddi ymhellach mewn Achos Busnes Amlinellol. Dylai'r rhestr fer o opsiynau **bob amser** gynnwys opsiwn 'status quo/gwneud lleiafswm'.

Mae'r fframwaith opsiynau'n cynnwys:

- Cwmpas (hy: pwy, beth, ble ac ati)
- Ateb Gwasanaeth (sut: yn dechnegol)
- Cyflenwi Gwasanaeth (pwy: darparwr)
- Rhoi ar waith (pryd: fesul cam a'r amser)
- Ariannu (sut: £)

Gweler y **Fframwaith Opsiynau – Enghraifft wedi'i Chwblhau (Atodiad 4)**

Ar y pwynt hwn, dylid gwneud dadansoddiad byr o gostau economaidd dangosol yr opsiynau ar y rhestr fer; cofiwch weithredu mewn modd cymesur a chaniatáu ar gyfer tuedd optimistiaeth. Ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw dylid gwneud hwn hefyd ar gyfer yr opsiwn a ffefrir (adeiladu newydd).

Dylai'r gwaith hwn olygu bod modd nodi'r ffordd ymlaen sy'n cael ei ffafrio ar y pryd, yn amodol ar ddadansoddiad manylach yn yr Achos Busnes Amlinellol.

2.3.4 Yr achos masnachol

Rhaid i'r rhan hon o'r achos busnes

- Ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf, nodi eich llwybr caffael arfaethedig. Ffefrir trefniadau tendr sy'n cydymffurfio sy'n cynnig cyfleoedd i gontractwyr yng Nghymru e.e. defnyddio fframwaith rhanbarthol fel SEWSCAP, Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru (SWWRFCF) neu [fframwaith adeiladu Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru ar gyfer ysgolion ac adeiladau cyhoeddus](#) neu drwy lwybr caffael OJEU ar wahân.
- Ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, mae'r broses o gaffael gwasanaethau WEPCo eisoes wedi'i chwblhau a bydd prosiectau'n cael eu cyflawni drwy'r broses a nodir yn y Cytundeb Partneriaeth Strategol gan ddefnyddio'r ffurflen safonol ar gyfer Cytundeb Prosiect.
- Nodi eich dull Budd i'r Gymuned a'r amcanion os ydynt yn hysbys ar y cam hwn, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddatganiad ar y ffordd y bydd cleientiaid yn hyrwyddo
 - cyfleoedd is-gontractio ar gyfer busnesau yng Nghymru a
 - chyflenwi dur o Gymru neu'r DU ar brosiectau lle mae dur yn elfen bwysig;
 - Cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ddifreintiedig, yn enwedig lle mae prosiectau mewn ardaloedd o amddifadedd a diweithdra mawr yng Nghymru
- Cadarnhau y bydd y prosiect yn nodi deilliannau / canlyniadau Buddion Cymunedol drwy'r Offeryn Mesur Buddion cymunedol a chyflwyno'r rhain i Gwerth Cymru o fewn Llywodraeth Cymru drwy fflwch post Buddion Cymunedol [CommunityBenefits@gov.wales](#)
- Cadarnhau y defnyddir Cyfrif Banc Prosiectau neu nodi'r rhesymau cryf pam na wneir hynny, yn unol â'r polisi ar gyfer Cyfrifon Banc Prosiectau.
- Cadarnhau, lle y defnyddir Cyfrif Banc Prosiectau, y bydd yn ofynnol o dan y contract.

2.3.5 Achos ariannol

Ar y cam hwn, dim ond gwybodaeth gyfyngedig sy'n ofynnol. Dylech:

- nodi cost amcangyfrifedig y ffordd ymlaen sy'n cael ei ffafrio, wedi'i dadansoddi ar draws y blynyddoedd ariannol drwy gyflwyno **Rhagamcan Cyllido (Atodiad 14)**
- nodi sut y caiff hyn ei gyllido.

A yw'r prosiect yn rhan o waith caffael swp? Os nad yw, pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i'r dull gweithredu hwn? A yw'r golled ariannol o beidio â mabwysiadu'r dull hwn wedi'i hasesu?

Cofiwch fod Llywodraeth Cymru yn dilyn paramedrau cost a maint llym o ran gwerth cyfalaf prosiectau ym Mand B y Rhaglen er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian a bod cynifer o fyfyrwyr â phosibl yn elwa ar amgylchedd dysgu'r 21^{ain} Ganrif.

Felly, a chan ddysgu gwersi o Fand A, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf ym Mand B hyd at uchafswm o 65%, ac 81% ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, o gost hollgynhwysol fesul metr sgwâr (m²). Mae'r gost fesul m² a amlinellir yn Atodiad 9 wedi'i lluosio â'r arwynebedd mwyaf a argymhellir sydd wedi'i bennu gan BB98/99. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r fformiwla hon er mwyn creu cost prosiect gyffredinol oherwydd credwn ei bod yn seiliedig ar ddehongliad hael o gyfraddau cyfartalog y farchnad ac rydym wedi nodi bod llawer o gyfleusterau ysgol rhagorol yng Nghymru a thu hwnt yn y DU wedi'u cwblhau'n llwyddiannus am gost prosiect hollgynhwysol sy'n sylweddol is na'r ffigur hwn. Dylai'r paramedrau arwynebedd a chost hyn hefyd gael eu defnyddio wrth weithio allan cost gyfalaf gyfatebol dybiannol cynlluniau MIM yn y lle cyntaf.

Mae'n bwysig tynnu sylw at unrhyw gostau abnormal tebygol sylweddol ar y cam Achos Amlinellol Strategol lle y bo modd er mwyn sicrhau nad yw hyn yn creu unrhyw oedi ychwanegol wrth gymeradwyo eich achosion busnes.

Cyfeiriwch at y **Safon Costau a Maint (Atodiad 9)** am restr lawn o'r hyn sydd wedi'i gynnwys mewn costau prosiect a beth fyddai'n cael ei ystyried yn gostau abnormal.

2.3.6 Yr achos rheoli

Dylai hwn egluro sut caiff y cynllun ei reoli a sut mae'n rhan annatod o'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif yr awdurdod lleol/sefydliad addysg bellach. Dylai esbonio hefyd sut caiff y prosiect ei reoli o fewn yr awdurdod lleol/sefydliad addysg bellach, yr adnoddau sydd eu hangen a'r risgiau o ran cyflawni'r prosiectau a sut y caiff y risgiau hynny eu rheoli.

Er enghraifft:

"Caiff y trefniadau isod eu rhoi ar waith i sicrhau bod y cynllun yn cael ei ddatblygu'n llwyddiannus ac y cynhyrchir Achos Busnes Amlinellol.

Caiff y prosiect ei reoli yn unol â methodoleg Prince2.

Unrhyw sicrwydd e.e. Adolygiad Gateway, sydd wedi cael ei gynnal ar y rhaglen, law yn llaw â chytuno ar y Rhaglen Amlinellol Strategol. Dyma'r camau sy'n deillio o hynny... Mae'r gweithgareddau Cerrig Milltir fel a ganlyn....."

Byddai'n dda hefyd gynnwys cyfeiriadau at gynlluniau /cynigion cynnar i wireddu neu werthuso buddion.

2.4 Achos Busnes Amlinellol

Prif bwrpas yr Achos Busnes Amlinellol yw:

- edrych eto ar yr Achos Amlinellol Strategol, gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau neu gadarnhau nad oes unrhyw newidiadau
- sefydlu'r opsiwn sy'n sicrhau'r gwerth gorau am arian (byddai hynny wedi'i wneud yn yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid referniw)
- amlinellu'r fargen ac asesu fforddiadwyedd
- dangos bod modd cyflawni'r cynllun arfaethedig.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu:

- diweddarau'r achos strategol os yw hynny'n briodol
- gwneud arfarniad buddsoddi o fewn yr achos economaidd
- cwblhau'r achosion masnachol, ariannol a rheoli, gyda chofrestri buddion a risg yn gefn iddynt.

Drwy gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol cytunir y gellir cynnal proses dendro, yn achos prosiect a ariennir gan gyllid cyfalaf.

Erbyn cam yr Achos Busnes Amlinellol, byddwch eisoes wedi gwneud ymchwiliadau safle ac wedi ysgwyddo costau dylunio a rheoli.

Ar y pwynt pan gaiff eich Achos Busnes Amlinellol ei gymeradwyo, bydd gennych hawl i hawlio am gostau cymwys a wynebwyd hyd hynny.

Dylid cwblhau Templed Cost y Prosiect a'i gyflwyno ar yr un pryd â'r Achos Busnes Amlinellol. Caiff y templedi hyn eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i sicrhau cysondeb â Safon Costau a Maint Ysgolion ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif.

Gweler **Templed Cost y Prosiect (Atodiad 10a)**.

I weld rhestr gyflawn o'r hyn i'w gynnwys yn yr Achos Busnes Amlinellol, cyfeiriwch at y **Templed Achos Busnes (Atodiad 1)**

2.4.1 Crynodeb gweithredol

Dylai hwn fod yn grynodeb byr o'r cynnig.

2.4.2 Yr achos strategol

Ar gam yr Achos Busnes Amlinellol, efallai y bydd rhaid diweddarau'r Achos Strategol a gyflwynwyd fel rhan o'r Achos Amlinellol Strategol.

Pan fo cynllun Carbon Sero-Net ("CSN") yn cael ei gynnig gan awdurdod, dylid cwblhau'r offeryn meintioli sy'n cydymffurfio â Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi. Bydd yr offeryn hwnnw'n llywio ystyriaeth o werth am arian yr ymyriadau arfaethedig, neu fel arall. Nodir y bydd y daenlen yn cynhyrchu costau, a bydd gofyn i lunwyr polisïau/penderfyniadau asesu derbynioldeb neu annerbynioldeb y costau hynny yn ôl yr hyn sy'n cael ei gyflawni.

Ceir canllawiau ar sut i gwblhau Offeryn Meintioli Carbon NZC yn Atodiad [16a].

2.4.3 Yr achos economaidd

Ar gam yr Achos Busnes Amlinellol, mae'n hanfodol bod Achos Economaidd cynhwysfawr, sy'n argyhoeddi, yn cael ei ddarparu.

Ar bob cam o'r broses achos busnes, bydd gofyn i chi gwblhau **Tabl Buddion i'r Ysgol** neu'r **Sefydliad Addysg Bellach (Atodiadau 5 a 6)** i nodi'r sefyllfa bresennol a'r effaith y bydd eich opsiynau gwahanol yn ei chael.

Yr opsiynau ar y rhestr fer

Ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf, rhowch yr opsiynau sydd ar y rhestr fer eto, fel y'u nodwyd yn yr Achos Amlinellol Strategol. Dylid tynnu sylw at unrhyw newidiadau. Ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, dylech gadarnhau mai eich opsiwn a ffefrir yw'r opsiwn a ffefrir o hyd.

Dylai'r arfarniad economaidd roi trosolwg o'r prif gostau a buddion sy'n gysylltiedig â'r opsiynau ar y rhestr fer. Bydd y dadansoddiad ariannol manwl yn ategu hyn. Gweler y **Templed Arfarnu Opsiynau – enghraifft wedi'i chwblhau (Atodiad 7)** a'r **Templed Arfarnu Opsiynau – gwag (Atodiad 8)**. **Ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, byddai'r arfarniad wedi'i gwblhau yn yr Achos Amlinellol Strategol.**

Mae gwybodaeth am gostau ac eithriadau wedi'u cynnwys yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM o dan 'Guidance on Options Appraisals' Mae'r dadansoddiad economaidd yn canolbwyntio ar werth am arian a dylai:

- ddefnyddio prisiau cyson (blwyddyn sylfaen)
- cynnwys costau cyfle
- cynnwys pob cost, budd a risg fesuradwy, i'r sefydliad ac i gymdeithas yn ehangach
- cynnwys costau amgylcheddol; caniatáu ar gyfer tuedd optimistiaeth
- peidio â chynnwys unrhyw daliadau 'trosglwyddo' gan y Trysorlys – er enghraifft TAW
- peidio â chynnwys chwyddiant cyffredinol
- peidio â chynnwys costau suddedig
- peidio â chynnwys dibrisiant na thaliadau cyfalaf.

Dylai ysgol neu goleg sy'n cael ei godi'n newydd gael ei asesu dros gyfnod o **drigain** mlynedd. Dylid asesu gwaith ailwampio ysgol neu goleg dros gyfnod o **ddeng mlynedd ar hugain**.

Yn ogystal â chostau a buddion mesuradwy, dylid hefyd ddadansoddi'r buddion ansoddol. Dylid gwneud hyn drwy nodi'r meini prawf budd mewn perthynas â phob un o'r amcanion buddsoddi. Dyma'r dull a ddefnyddir:

- pwysoli pwysigrwydd cymharol (ar ffurf %) pob maen prawf budd mewn perthynas â phob amcan buddsoddi
- sgorio pob un o'r opsiynau ar y rhestr fer yn erbyn y meini prawf budd ar raddfa o 0 i 9
- deillio sgôr buddion wedi'i phwysoli ar gyfer pob opsiwn.

Dylid crynhoi canlyniadau'r dadansoddiad hwn hefyd ynghyd â'r rhesymau wrth wraidd y pwysoli a'r ffordd y sgoriwyd y buddion. Dylech geisio cynnwys cyfranogwyr annibynnol wrth wneud y dadansoddi i sicrhau bod y penderfyniadau mor wrthrychol â phosibl ac nad yw'r ffaith bod ateb neilltuol yn cael ei ffafrio yn achosi tuedd ynddynt.

Er bod asesu buddion ansoddol yn bwysig, mae'n hanfodol bod y dadansoddi meintiol (sef canlyniadau gwerth cyfredol net neu gost cyfredol net yn y bôn) a dadansoddi ansoddol (pwysoli a sgorio) yn **ategu ei gilydd** (Llyfr Gwyrdd, tudalen 38). Os ydynt yn awgrymu y dylid dilyn opsiynau gwahanol, mae'r Llyfr Gwyrdd yn awgrymu y dylid cynnal dadansoddiad pellach cyn nodi'r opsiwn a ffefrir.

Meini Prawf Budd a Phwysoliad	Opsiwn 1		Opsiwn 2		Opsiwn 3		Opsiwn 4	
Sgoriau crai (C) a sgoriau wedi'u pwysoli (P)	C	P	C	P	C	P	C	P
Maen Prawf Budd 1								
Maen Prawf Budd 2								
Maen Prawf Budd 3								
Maen Prawf Budd 4								
Maen Prawf Budd 5								
Cyfanswm								
Safle								

Arfarnu risg - Ansoddol (anfesuradwy)

Rhaid nodi'r risgiau'n gysylltiedig â'r cynllun, eu blaenoriaethu a'u harfarnu ym mhob achos.

Yng nghyswllt buddsoddiadau newydd, arwyddocaol a/neu fuddsoddiadau gwerth uchel, dylid mesur risg mewn £oedd a chynnwys hynny yn yr arfarniadau economaidd ('cadw cost risg'). Os nad yw'r risgiau wedi'u mesur (mewn £oedd), dylid cynnwys swm ar gyfer tuedd optimistiaeth. Yn achos pob risg arall: y rhai sy'n anfesuradwy mewn £oedd, dylid eu harfarnu fel y dangosir isod.

Yng nghyswllt cynlluniau canolig a bach eu maint, efallai y bydd yn ddigon ar y cam hwn pwysoli a sgorio'r risgiau ynghlwm wrth bob opsiwn a'u gosod mewn trefn yn unol â hynny, gweler isod.

Pa ddull bynnag a ddilynnir, rhaid cynnwys swm ar gyfer tuedd optimistiaeth yn yr arfarniadau economaidd.

Yn ddelfrydol, dylai'r risgiau gael eu mesur (mewn £oedd) ym mhob achos a dylid asesu'r risgiau anfesuradwy fel yr amlinellwyd isod. Yn y rhan fwyaf o achosion, fe welwch fod y risgiau gwasanaeth sy'n gysylltiedig â nodweddion dylunio, adeiladu a gweithredu'r cynllun yn disgyn i'r categori blaenorol, tra bo'r risgiau busnes cysylltiedig yn disgyn i'r categori olaf. Gallwch anwybyddu risgiau amgylcheddol allanol, er enghraifft, chwyddiant, at ddibenion yr arfarniad hwn, gan eu bod yn gyffredin i bob opsiwn.

Dylid cofnodi a sgorio risgiau mewn perthynas â phob opsiwn.

Ar ôl dadansoddi'r tair elfen: Economaidd, Buddion a Risgiau, dylid llunio tabl cryno.

Canlyniadau Gwerthuso	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Opsiwn 4
Arfarniad economaidd				
Arfarniad buddion				
Arfarniad risg				
Safle Cyffredinol				

Dylid wedyn ddod i'r casgliad mai'r opsiwn a ffeirir yw 'X' a dylid nodi'r rhesymau pam.

Dadansoddiad sensitifrwydd

Mae'n bwysig profi sensitifrwydd yr opsiwn a ffeirir drwy:

- 'gyfnewid gwerthoedd'
- cynllunio / dadansoddi senarios ('beth petai') drwy newid gwerthoedd y costau a'r buddion 'ansicr' i weld yr effaith ar safle'r opsiynau drwyddi draw.

Dylid cofnodi canlyniadau'r profion hyn yn yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf, ac yn yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, a dweud hefyd a yw hyn wedi newid safle'r opsiwn a ffeirir.

2.4.4 Yr achos masnachol

Mae'r rhan hon o'r Achos Busnes Amlinellol yn amlinellu'r fargen arfaethedig yng nghyswllt yr opsiwn a ffeirir sydd wedi'i amlinellu yn yr achos economaidd. Dylai hefyd ailystyried achos masnachol yr Achos Amlinellol Strategol er mwyn ailategu neu ymhelaethu ar

- Y llwybr caffael a ddilynir ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf
- Manylion dull cydosod y gadwyn gyflenwi mewn prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw gan fod y broses o gaffael gwasanaethau WEPCo eisoes wedi'i chwblhau
- Dull / cynlluniau Buddion Cymunedol a'r amcanion os ydynt yn hysbys ar y cam hwn
- Yr ymrwymiad i ddefnyddio Cyfrif Banc Prosiectau, y bydd y gofyniad yn un o delerau'r contract

2.4.5 Yr achos ariannol

Pwmpas yr adran hon yw nodi goblygiadau ariannol yr opsiwn a ffeirir fel y'u rhagwelir, fesul blwyddyn ariannol (fel y maent wedi'u nodi yn adran yr achos economaidd) a'r fargen arfaethedig (fel y'i disgrifiwyd yn yr achos masnachol).

Gan fod Llywodraeth Cymru'n talu am 65% o gostau prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf, ac 81% o daliadau gwasanaeth blynyddol prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, mae'n bwysig i ni fod yn hyderus bod y 35% neu'r 19% sy'n weddill o gostau'r prosiect neu'r cyllid refeniw yn fforddiadwy. Caiff cyfraniad Llywodraeth Cymru ei gapio a disgwylir i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach weithredu o fewn y gyllideb hon.

Ar y pwynt hwn yn natblygiad y prosiect, dylai awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach allu nodi'r ffynonellau arian cyfatebol a chadarnhau ymrwymiad i hynny gan y partïon perthnasol yn yr awdurdod lleol / sefydliad addysg bellach.

Er enghraifft:

Derbyniadau Cyfalaf: A yw'r rhain wedi dod i law? A ydynt wedi'u clustnodi ar gyfer y prosiect? Os nad yw'r ased wedi'i werthu eto, beth yw sail y prisiad? Pryd fydd yr arian o'r gwerthiant yn dod i law? A fydd amseriad unrhyw werthiant yn effeithio ar lif arian y prosiect?

Arian Cyfalaf/Refeniw: A yw'r Cabinet / Bwrdd wedi ymrwymo i hyn? Os felly, pa bryd y cynhaliwyd y cyfarfod hwnnw? Os nad yw, pa bryd fydd y cynnig hwn yn mynd gerbron y Cabinet / Bwrdd iddo ymrwymo iddo? Dylech gynnwys y cofnodion.

Benthycia Darbodus / Arall: A yw'r benthyciad wedi'i sicrhau? A oes ffrwd refeniw wedi'i nodi i ariannu'r benthyciad? A oes dadansoddiad sensitifrwydd wedi'i wneud i sicrhau bod y benthyciad yn fforddiadwy pe bai unrhyw amgylchiadau'n newid?

Arbedion a wireddir drwy ad-drefnu ysgolion: A yw'r ymgynghoriadau perthnasol wedi'u cynnal er mwyn i'r ad-drefnu arfaethedig gael ei gyflawni? A yw'r Cabinet/Bwrdd wedi cadarnhau ei fod yn hapus i glustnodi'r refeniw a ryddheir i'r diben o ariannu'r prosiect? Os felly, ar ba ddyddiad y cafodd hyn ei gadarnhau?

A fydd y prosiect yn golygu costau ynteu arbedion refeniw?

Ym mhob achos, dylai taliadau cyfalaf, TAW, a chostau risg (unrhyw arian wrth gefn neu lwfans ar gyfer addasiadau risg a thuedd optimistiaeth) gael eu dangos ar wahân. I Sefydliadau Gwirfoddol a Gynorthwyr a sefydliadau addysg bellach, mae i fuddsoddiadau cyfalaf oblygiadau TAW a dylid ceisio arweiniad gan CThEM i sicrhau bod cost lawn y prosiect yn cael ei hadlewyrchu yn y cais.

Bydd angen ichi fanylu ar y llif arian gan ddangos effaith y gwariant cyfalaf, ac arbedion refeniw ac unrhyw ad-daliadau llog.

Dylid hefyd ei gwneud yn glir eiddo pwy fydd yr ased a grëir. Er enghraifft, a fydd yn eistedd ar Fantolen yr awdurdod lleol neu ryw barti arall?

Dylech gynnwys **Rhagamcan Cyllido (Atodiad 14)** sydd wedi'i ddiweddarau yn eich Achos Busnes Amlinellol.

2.4.6 Yr achos rheoli

Mae'r rhan hon o'r Achos Busnes Amlinellol yn ystyried yn fanwl a oes modd cyflawni'r cynllun. Ei ddiben, felly, yw adeiladu ar yr Achos Amlinellol Strategol drwy fanylu ymhellach ar y camau a fydd yn ofynnol i sicrhau y gellir cyflawni'r cynllun yn llwyddiannus yn unol â'r arferion gorau.

Dylai'r adran hon gynnwys cadarnhad y bydd y prosiect yn cael ei reoli yn unol â methodoleg PRINCE 2, manylion trefniadaeth adrodd a strwythur y prosiect, manylion rolau a chyfrifoldebau'r prosiect, a throsolwg o gynllun y prosiect gyda cherrig milltir. Dylai hyn esbonio'r broses lywodraethu, y broses o reoli'r prosiect a'r adnoddau cyn, yn ystod ac ar ôl y broses gaffael.

Dylai'r disgrifiad o strwythur y prosiect gynnwys siart strwythur er mwyn i aseswyr ddeall y rolau a'r llinellau adrodd yn well.

Mae'n bwysig hefyd fod yr achos hwn yn nodi'r trefniadau amlinellol ar gyfer rheoli'r contract; gwireddu buddion, rheoli risg a monitro a gwerthuso.

Dylai hefyd roi manylion perchnogaeth tir, ymgynghori statudol a chynllunio amlinellol.

Dylid cyfeirio hefyd at Broses Adolygiad Gateway, a chadarnhau bod unrhyw argymhellion yn cael eu rhoi ar waith.

2.5 Achos Busnes Llawn

Caiff yr Achos Busnes Llawn ei gyflwyno ar ôl gwneud gwaith caffael, ond cyn llofnodi'r contract; neu ar ôl cael Cam 2 Achos Busnes Llawn WEPCo ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, ond cyn awdurdodi WEPCo i gwblhau'r agweddau ariannol.

Prif bwrpas yr Achos Busnes Llawn yw darparu tystiolaeth mai'r cynnig mwyaf manteisiol yn economaidd, sy'n cyfateb i'r achos strategol neu'r opsiwn a ffeirir (prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf), sy'n cael ei gaffael a'i fod yn fforddiadwy ac yn realistig. Hefyd, mae'r Achos Busnes Llawn yn egluro hanfodion y fargen sydd wedi'i negodi ac yn dangos bod modd cyflawni'r allbynnau gofynnol yn llwyddiannus.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu:

- adolygu'r achosion strategol ac economaidd a diweddarau manylion yr achos masnachol i adlewyrchu cyfnod caffael prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf a chyfnod datblygu Cam 2 ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw;
- cwblhau'r achos masnachol i gofnodi'r hyn sy'n cael ei gynnig gan y darparwr gwasanaeth a ffeirir
- diweddarau unrhyw newidiadau i'r Achos Ariannol a sefydlu trefniadau llywodraethu a rheoli cadarn er mwyn gwireddu'r prosiect a'r adnoddau;
- cadarnhau nad yw'r costau wedi newid ers yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf a rhoi diweddariad o'r model ariannol ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw – a bod y partion sy'n talu am y cynllun wedi cadarnhau bod y risg yr un fath.

Dylid llenwi Ffurflen Wybodaeth am y Prosiect, a'i dychwelyd, ynghyd â Thempled Cost y Prosiect wedi'i ddiweddarau, wrth gyflwyno'r Achos Busnes Llawn. Mae'r Ffurflen Wybodaeth am y Prosiect yn cyflwyno holl fanylion y prosiect, gan gynnwys costau a buddion, sy'n bwydo i mewn i'r llythyr grant terfynol a anfonir i'w llofnodi.

Gweler **Templed Cost y Prosiect (Atodiad 10b)** a'r **Ffurflen Wybodaeth am y Prosiect (Atodiad 11)**.

2.5.1 Crynodeb Gweithredol

Dylai hwn fod yn grynodeb byr o'r cynnig a dylai gael ei ddiweddarau i gynnwys y sefyllfa derfynol.

2.5.2 Yr achos strategol

Cofiwch gyfeirio'n ôl at y Rhaglen Amlinellol Strategol, yr Achos Amlinellol Strategol a'r Achos Busnes Amlinellol, gan nodi unrhyw newidiadau allweddol ers i'r dogfennau hyn gael eu cynhyrchu a'u cymeradwyo.

2.5.3 Yr achos economaidd

Gan fod sylw manwl wedi cael ei roi i'r adran hon yn ystod yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf, ac yn ystod yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, nid oes angen ailddatgan yr achos yn fanwl. Ond, cofiwch dynnu sylw at unrhyw newidiadau pwysig ac ystyriwch a allai'r newidiadau

gael effaith berthnasol ar safle'r opsiynau fel y'u nodwyd yn yr Achos Busnes Amlinellol/Achos Amlinellol Strategol, a chofnodwch eich casgliadau.

Ar bob cam o'r broses achos busnes, bydd gofyn i chi gwblhau **Tabl Budd i'r Ysgol** neu'r **Sefydliad Addysg Bellach (gweler Atodiadau 5 a 6)** i nodi'r sefyllfa bresennol a'r effaith y bydd eich opsiynau gwahanol yn ei chael.

2.5.4 Yr achos masnachol

Mae'r rhan hon o'r Achos Busnes Llawn yn nodi'r trefniadau a negodwyd ac yn cynnwys disgrifiad o'r gwasanaethau gofynnol a'r trefniadau trosglwyddo risg. Dylai'r rhan hon hefyd nodi

- Y llwybr caffael a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd i benodi contractiwr ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf
- Cadarnhad bod y ffurflen safonol ar gyfer Cytundeb Prosiect wedi'i defnyddio ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw ac unrhyw randdirmiadau a wnaed, gan gynnwys yr awdurdod perthnasol a gafwyd
- Cynllun Budd i'r Gymuned ac amcanion penodol e.e. nifer y cyfleoedd cyflogaeth a/neu hyfforddiant, a'r math o gyfleoedd; grwpiau targed ar gyfer y cyfleoedd hynny; trefniadau i sicrhau y bydd cyfleoedd is-gontractio ar gael i fusnesau yng Nghymru ac ati
- Cynlluniau neu drefniadau Cyfrif Banc Prosiectau¹ e.e. cadarnhau bod y gofyniad o ran Cyfrif Banc Prosiectau yn rhan o delerau'r contract neu y bydd yn rhan ohonynt; cadarnhau'r banc a gaiff ei ddewis neu sydd wedi'i ddewis i ddarparu Cyfrif Banc y Prosiect a sut y caiff y taliadau ar ei gyfer eu hawdurdodi – cyfrif Unigol neu ar y Cyd ac y caiff y cyfrif ei sefydlu gan gyfeirio at y gofynion ar gyfer cyfrif o'r fath yn unol ag [*Atodiad 1 – Gofynion sylfaenol ar gyfer Cyfrif Banc Prosiectau*](#) [*Canllawiau ar ddefnyddio Cyfrifon Banc Prosiectau Llywodraeth Cymru – Rhagfyr 2017*](#)

2.5.5 Yr achos ariannol

Diben yr adran hon yw nodi goblygiadau ariannol pendant yr ateb yr ymrwymir iddo drwy gontract. Dylai gynnwys y trefniadau ariannol ar eu gwedd derfynol. Gan fod Llywodraeth Cymru'n talu am 65% o gostau prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf ac 81% o daliadau gwasanaeth blynyddol prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, mae'n bwysig i ni fod yn hyderus bod y 35% neu'r 19% sy'n weddill o gostau'r prosiect neu'r cyllid refeniw yn fforddiadwy. Dylai'r achos hwn gadarnhau ffynonellau'r arian cyfatebol, felly. Er enghraifft:

- Derbyniadau Cyfalaf: Cadarnhad fod y rhain wedi dod i law a'u bod wedi'u clustnodi i bwrpas y prosiect. Gydag unrhyw dderbyniadau nad ydynt wedi'u gwireddu, dylid rhoi sicrwydd ynglŷn ag amseriad a swm y derbyniad.
- Arian Cyfalaf: Dylid darparu tystiolaeth o ymrwymiad y Cabinet / Bwrdd.
- Benthycia Darbodus / Arall: Dylid darparu tystiolaeth bod unrhyw fenthyciadau wedi'u sicrhau a nodi ffrwd refeniw i dalu'r ad-daliadau.
- Arbedion a gyflawnir drwy ad-drefnu ysgolion: Dylid darparu tystiolaeth o ymrwymiad y Cabinet / Bwrdd.

Dylai costau'r prosiect gael eu dadansoddi fel y gwnaed yn yr Achos Busnes Amlinellol, ond dylid eu diweddarau fel eu bod yn fwy manwl ac yn dangos y costau fesul blwyddyn ariannol yn sgil negodi'r contract.

Dylech gynnwys **Rhagamcan Cyllido (Atodiad 14)** wedi'i ddiweddarau wrth gyflwyno eich Achos Busnes Llawn.

¹ Cyfeiriwch at Ganllawiau Achosion Busnes y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (Rhan B) i gael gwybodaeth am y dull o ymdrin â Chyfrifon Banc y Prosiect

2.5.6 Yr achos rheoli

Dylai'r achos hwn gynnwys y trefniadau terfynol ar gyfer rheoli'r prosiect, gwireddu'r buddion, cofrestru'r risgiau, rheoli'r contract ac Adolygiadau *Gateway*.

I gael gweld rhestr gyflawn o'r hyn i'w gynnwys yn yr Achos Busnes Llawn, gweler y **Templed Achos Busnes (Atodiad 1)**.

2.6 Achos Cyfiawnhad Busnes

Mae'r Achos Cyfiawnhad Busnes yn cael ei gadw ar gyfer prosiectau sy'n werth llai na chyfanswm o £5 miliwn.

I weld rhestr gyflawn o'r hyn i'w gynnwys yn yr Achos Cyfiawnhad Busnes, gweler y **Templed Achos Busnes (Atodiad 1)**.

2.6.1 Pwrpas

Dywedwch yn glir beth yw diben yr Achos Cyfiawnhad Busnes: fel arfer – *"rydym yn ceisio cymeradwyaeth ... am £ ... ar ... er mwyn ..."*

2.6.2 Y cyd-destun strategol

Rhowch drosolwg o'r cyd-destun y gwneir y buddsoddiad ynddo. Mewn geiriau eraill, y strategaeth, rhaglen waith, gwasanaeth, prosiect neu weithrediad, y mae'r buddsoddiad yn cyfrannu ato.

2.6.3 Yr achos o blaid newid

Anghenion busnes

Rhowch y rhesymau cryf dros fuddsoddi yn y gwasanaethau neu'r asedau gofynnol, gan gyfeirio at:

- amcanion buddsoddi'r caffael
- y problemau gyda'r status quo.

Buddion

Rhowch grynodeb o'r **prif** fuddion yn gysylltiedig â'r buddsoddiad, gan wahaniaethu rhwng buddion ansoddol a meintiol; buddion sy'n rhyddhau arian a'r rhai nad ydynt yn rhyddhau arian; buddion uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r sefydliad, fel sy'n briodol.

Ar bob cam o'r broses achos busnes, bydd gofyn i chi gwblhau **Tabl Budd i'r Ysgol** neu'r **Sefydliad Addysg Bellach (Atodiadau 5 a 6)** i nodi'r sefyllfa bresennol a'r effaith y bydd eich opsiynau gwahanol yn ei chael.

Tynnwch sylw hefyd at sut y byddech yn ceisio gwneud yn fawr o'r polisi Buddion Cymunedol, yn cynnwys blaenoriaethau rydych chi am roi sylw iddynt megis recriwtio wedi'i dargedu a hyfforddiant. Manylwch ar unrhyw dargedau sydd wedi'u gosod (craidd, di-graidd neu'r naill a'r llall), cadarnhewch y byddwch yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr llwyddiannus gwblhau offeryn Mesur Buddion Cymunedol a sut y bydd yn rheoli canlyniadau o'r fath ac yn sicrhau eu bod yn cael eu gwireddu.

Risgiau

Rhowch grynodeb o'r **prif** risgiau sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiad, gan wahaniaethu rhwng risgiau busnes a gwasanaeth, yn ystod camau dylunio, adeiladu a gweithredol y prosiect, fel sy'n briodol.

2.6.4 Yr opsiynau sydd ar gael

Rhowch ddisgrifiad o'r prif opsiynau (neu ddewisiadau) buddsoddi, ynghyd â'u manteision a'u hanfanteision cymharol (dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau).

Cofiwch:

- Dylid ystyried **pedwar opsiwn** o leiaf, yn cynnwys 'gwneud lleiafswm' neu'r 'status quo' (oni bai fod rhesymau cryf i'r gwrthwyneb)
- Yn dibynnu ar natur y buddsoddiad, gallai'r opsiynau hyn fod yn wahanol o ran eu cwmbras busnes posibl, y datrysiad gwasanaeth, cyflenwi gwasanaeth, a threfniadau gweithredu ac ariannu.
- Dylai arfarniad buddsoddi pob opsiwn gael ei gynnwys mewn atodiad a dylai gael ei baratoi yn unol â'r dulliau a'r technegau a nodir yn y 'Capital Investment Manual' a Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM.

Yr opsiwn a ffefrir

Ar sail yr uchod:

- Dywedwch pam mae'r opsiwn sy'n cael ei argymhell yn rhoi'r gwerth gorau am arian.
- Disgrifiwch y gwasanaethau a/neu'r asedau sy'n ofynnol.

2.6.5 Y llwybr caffael

Dywedwch sut y caiff yr ased neu'r gwasanaeth ei gaffael yn unol â chyfarwydddebau'r UE, Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a pholisi caffael Cymru fel y'i hamlinellir yn [Natganiad Polisi Caffael Cymru](#) gan gyfeirio'n benodol at:

- Cynlluniau Buddion Cymunedol a'r defnydd o'r Offeryn Mesur Buddion Cymunedol ar gyfer prosiectau sydd dros £1m Defnydd o Gyfrif Banc Prosiectau yn unol â pholisi
 - Llywodraeth Cymru h.y. lle mae'r gwerth prosiect net* dros £2m a bod y prosiect yn para dros chwe mis
- * Gwerth prosiect net – y gwerth heb gynnwys TAW, yswiriant na chostau / gorbenion eraill nad ydynt yn effeithio ar y gadwyn gyflenwi. Felly, gall cleientiaid hepgor costau rhagarweiniol / cam dylunio wrth asesu a yw prosiect / contract yn cyrraedd y trothwy o £2m.

Pam canolbwyntio ar 'werth net'? Prif ddiben Cyfrif Banc Prosiectau yw diogelu is-gontractwyr a all wynebu risg llif arian, felly canolbwyntir ar werth elfen adeiladu prosiectau gan mai dyma'r brif risg sy'n wynebu is-gontractwyr.

Gall hyn gynnwys defnyddio contract presennol, contract yn ôl y gofyn neu gytundeb fframwaith, neu ofyn am gaffaeliad newydd o dan yr uchod gan sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn cael y cyfle i gynnig am y gwaith.

2.6.6 Ariannu a fforddiadwyedd

Nodwch:

- Gostau cyfalaf a refferiw'r buddsoddiad arfaethedig
- Sut y bydd y buddsoddiad yn cael ei ariannu
- Unrhyw fwlch fforddiadwyedd yr ydych yn ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru ar ei gyfer.

Cwblhewch **Dempled Cost y Prosiect (Atodiad 10b)**, y **Ffurflen Wybodaeth am y Prosiect (Atodiad 11)** a'r **Rhagamcan Cyllido (Atodiad 14)** wedi'i ddiweddarau yn eich cyflwyniad.

2.6.7 Y trefniadau rheoli

Nodwch sut bydd y buddsoddiad yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus a chyfeiriwch yn arbennig at:

- Y trefniadau rheoli prosiect
- Y trefniadau sicrwydd busnes
- Monitro gwireddu buddion
- Rheoli risg
- Gwerthuso ôl-brosiect
- Cynlluniau wrth gefn

3. Y broses asesu

Mae'r broses o asesu Achos Busnes yn mynd drwy broses dri cham.

- Grŵp Craffu ar Achosion Busnes
- Panel Buddsoddi mewn Addysg, a fynychir gan Gyfarwyddwr o'r Gyfarwyddiaeth Addysg ac o adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru
- Cymeradwyaeth gan y Gweinidog Addysg

3.1 Grŵp Craffu ar Achosion Busnes

Cynhelir cyfarfodydd yn fisol, ac fel arfer trefnir iddynt gael eu cynnal ar ddechrau'r mis. Rhaid i achosion ddod i law bythefnos cyn y dyddiad hwn i sicrhau bod aelodau'r Grŵp yn cael digon o amser i'w hasesu.

Mae arweinwyr polisi ac arbenigwyr technegol o bob rhan o Lywodraeth Cymru'n mynychu'r Grŵp. Yn arbennig, mae'r grŵp yn edrych ar yr achosion ac yn eu hasesu o ran cysondeb â strategaeth Llywodraeth Cymru, y gallu i gyflawni, achos economaidd cryf, strategaeth fasnachol a fforddiadwyedd.

Lle mae'r Grŵp yn canfod mater difrifol sy'n debygol o effeithio ar allu'r Panel Cyfalaf i wneud penderfyniad, gofynnir am ragor o wybodaeth gan yr awdurdod lleol/sefydliad addysg bellach.

3.2 Panel Buddsoddi

Mae'r grŵp hwn hefyd yn cwrdd bob deufis, gyda'r cyfarfodydd wedi'u trefnu am yn ail fis i'r Grŵp Craffu ar Achosion Busnes. Mae hyn yn golygu bod rhaid mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir drwy'r Grŵp Craffu ar Achosion Busnes yn y pythefnos cyn cyfarfod y Panel Buddsoddi.

Mae'r Panel Buddsoddi yn adolygu achosion ac yn ystyried canfyddiadau'r Grŵp Craffu ar Achosion Busnes.

Bydd achosion nad ydynt yn cael eu cymeradwyo gan y Panel yn cael eu cyfeirio'n ôl at y partneriaid cyflawni i gael rhagor o wybodaeth.

3.3 Cymeradwyaeth gan y Gweinidog

Mae'r achosion hynny y mae'r Panel Buddsoddi yn argymhell eu cymeradwyo yn cael eu cyfeirio at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, a cheisir penderfyniad ffurfiol.

Mae angen i bartneriaid cyflawni roi gwybod i dîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy am unrhyw amrywiadau i brosiectau cymeradwy. Caiff y newidiadau hyn eu hystyried wedyn gan y Panel Buddsoddi a'r Gweinidog Addysg. Cwblhewch a chyflwynwch **Ffurflen amrywio (Atodiad 15)**.

4. Y broses cymeradwyo prosiect

4.1 Llythyr grant

Ar ôl i'r Achos Busnes Amlinellol gael ei gymeradwyo, gallwch gyflwyno cais i hawlio costau cymwys a ysgwyddir yn ôl mewn perthynas ag ymchwiliadau safle a ffioedd dylunio a rheoli i dîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy— er mwyn i'r cais gael ei ystyried gan y Panel Buddsoddi mewn Addysg a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Os bydd y cais yn cael ei gymeradwyo, anfonir llythyr grant atoch sy'n nodi'r swm y gallwch ei hawlio ar y pwynt hwn.

Gall unrhyw grant a roddir ar y pwynt hwn yn natblygiad y prosiect gael ei adfachu os na chaiff y prosiect ei gymeradwyo yn yr Achos Busnes Llawn.

4.2 Amodau

Mae nifer o amodau grant penodol y mae angen i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach fod yn ymwybodol ohonynt wrth gyflwyno achosion busnes. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod.

4.2.1 Buddion cymunedol

Yn unol â nod Llywodraeth Cymru o ddatblygu economi lewyrchus i Gymru a all ddarparu twf economaidd cryf a chynaliadwy a threchu tlodi, mae'n bwysig bod y seilwaith sylweddol a ddarperir drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd sydd ar gael. Mae'r polisi Buddion Cymunedol yn ffordd o ysgogi canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol drwy gaffael cyhoeddus. Mae'r polisi'n galluogi cyrff cyhoeddus i ddefnyddio caffael i roi cymalau ac amodau contract ar waith i wireddu canlyniadau cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys y potensial i agor cyfleoedd mewn cadwyni cyflenwi i fentrau cymdeithasol a busnesau lleol; cyfrannu at addysg drwy ymgysylltu ag ysgolion lleol, colegau a phrifysgolion; a chyfrannu at fentrau cymunedol sy'n helpu i drechu tlodi a sicrhau gwaddol sy'n para.

Mae hefyd yn adnodd strategol i helpu i weithredu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, fel cefnogi pobl i gael gwaith. Gall y polisi ysgogi cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a gefnogir gan Raglenni Cyflogadwyedd Cymunedol i'r rheini sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur a phobl o grwpiau difreintiedig fel y'u diffinnir ym mholisi a chanllawiau Buddion Cymunedol.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i reolwyr prosiect awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach arwain y ffordd o ran buddion cymunedol a phennu'r gofynion fel rhan o'r gwahoddiad i dendro ar gyfer eu prosiectau. Cyn cyflwyno Achos Busnes Llawn, mae gofyn i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach ddarparu manylion amcanion y prosiect o ran Buddion Cymunedol a'r dull y byddant yn ei ddefnyddio i sicrhau cymaint o fanteisio cymunedol â phosibl. Dylid cynnwys y manylion hyn ynghyd â'r buddion ehangach fel y'u nodwyd yn yr Achos Economaidd.

Mae disgwyl i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiadau chwarterol a blynyddol i Lywodraeth Cymru, fel y bo'n briodol, ynghylch cynnydd yn erbyn y 'meincnodau canllaw' gan ddefnyddio'r tablau a ddarperir yn y canllawiau. Caiff y wybodaeth chwarterol ei chyflwyno ar yr un pryd ag y bydd awdurdodau lleol yn anfon eu hawliadau am daliad. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn gronnoel a gall awdurdodau lleol gynnwys y datganiad prosiect terfynol yn eu hadroddiad clo.

I gael gwybod sut i gwblhau'r adran ar fanteision cymunedol o'r ffurflen wybodaeth am y prosiect, gweler **Buddion Cymunedol – Ffurflen Wybodaeth am y Prosiect (canllawiau ac enghraifft wedi'i chwblhau) (Atodiad 12)**.

Mae gofyniad hefyd i gwblhau offeryn Mesur Buddion Cymunedol ar gyfer y prosiect bob 12 mis a'i ddychwelyd i Gwerth Cymru drwy CommunityBenefits@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i <http://prp.wales.gov.uk/toolkit/> lle cewch help gyda gwahanol ddulliau gweithredu, meysydd polisi â blaenoriaeth, a Chwestiynau Cyffredin i'ch helpu i sefydlu'ch dull o ymdrin â Buddion Cymunedol. Os oes angen cymorth pellach arnoch, anfonwch e-bost i CommunityBenefits@llyw.cymru.

4.2.2 Cyfrifon Banc Prosiectau

Mae polisi Cyfrifon Banc Prosiectau Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl bwysig is-gontractwyr busnesau bach a chanolig wrth gyflawni prosiectau o fewn y sector cyhoeddus a phwysigrwydd talu partneriaid yn y gadwyn gyflenwi mewn ffordd deg a phrydlon. Mae Cyfrifon Banc Prosiectau yn cefnogi polisi Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru ac yn benodol yn hyrwyddo arferion busnes moesegol sy'n gwneud Cymru yn lle da i fyw, gweithio a gwneud busnes. Mae Cyfrifon Banc Prosiectau yn ddull o sicrhau taliadau teg a phrydlon drwy gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus.

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cefnogi'r nodau hyn ac mae wedi gwneud y defnydd o Gyfrifon Banc Prosiectau yn unol â'r polisi Cyfrifon Banc Prosiectau yn amod cyllid i bob prosiect sy'n ceisio cyllid gan y Rhaglen o 1 Ionawr 2019.

4.2.3 Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) a Thystysgrif Perfformiad Ynni

Lle mae grant Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ysgolion newydd neu adeiladau 'annibynnol', mae'n ofynnol sicrhau sgôr BREEAM 'ragorol', (mae adeilad 'annibynnol' yn golygu gwaith nad yw'n cynnwys adnewyddu adeilad presennol nac estyniad oni bai fod yr estyniad yn hunangynhaliol).

Er enghraifft, ni fyddai angen sgôr BREEAM 'ragorol' ar estyniad ystafelloedd dosbarth deulawr ond byddai'n ofynnol cael gradd A Tystysgrif Perfformiad Ynni. Fodd bynnag, os yw'r strwythur arfaethedig yn adeilad 'annibynnol' sy'n hunangynhaliol a chanddo ei wasanaethau cyfleustodau uniongyrchol ei hun, byddai BREEAM yn gymwys.

Os rhagwelir, wrth godi ysgol newydd, na fydd modd sicrhau sgôr BREEAM 'ragorol', bydd angen i'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach roi gwybod yn gyntaf i'r tîm Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif, gan y gallai hynny effeithio ar yr arian grant sydd ar gael. Byddai angen achos busnes i gefnogi unrhyw wro oddi wrth sicrhau sgôr 'ragorol'. Bydd angen cymeradwyaeth y Gweinidog ym mhob achos.

Mae gofynion BREEAM yn seiliedig ar arwynebedd llawr. Ceir rhestr lawn o'r gofynion yn <https://llyw.cymru/safonau-adeiladu-cynaliadwy>

4.2.4 Draenio dŵr wyneb

Dylai'r ddarpariaeth ar gyfer draenio dŵr wyneb gydymffurfio â Safonau Draenio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Bydd hyn nid yn unig yn cyfrannu at sgôr BREEAM ragorol, ond mewn sawl achos gallai gyfrannu at waith tirlunio safle i sicrhau adnodd addysgol gwerthfawr.

4.2.5 Draenio dŵr brwnt

Mae darpariaeth ddigonol ar gyfer draenio dŵr brwnt yn hanfodol ar gyfer unrhyw brosiect ysgol.

4.2.6 Cynnwys wedi'i ailgylchu

Mae safon ofynnol o ran cynnwys wedi'i ailgylchu. Rhaid i 15% o leiaf o gyfanswm gwerth y deunyddiau a ddefnyddir ddeillio o gynnwys wedi'i ailgylchu neu'i ailddefnyddio yn y defnyddiau a ddewisir.

4.2.7 Diogelwch Tân

Mae Rhan B o'r Rheoliadau Adeiladu yn cyfeirio at ddiogelwch tân ac mae'n berthnasol i bob adeilad ysgol a choleg newydd, cynlluniau ailwampio mawr ac estyniadau. Mae Bwletin Adeiladu 100 hefyd yn berthnasol i bob prosiect ysgol. Ym mhob achos anogir awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach i drafod y gosodiadau diogelwch tân gyda'u swyddog diogelwch tân lleol.

Un o'r amodau ar gyfer cael cyllid yw bod chwistrellwyr dŵr yn cael eu hymgorffori ym mhob prosiect ysgol a choleg 'newydd' (annibynnol neu estynedig) dros 250m² a/neu lle mae ailfodelu sylweddol yn digwydd.

Lle mae ailfodelu ysgol yn golygu uwchraddio seilwaith presennol yr ysgol yn helaeth, dylai chwistrellwyr dŵr gael eu gosod. Lle mae awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach yn ansicr o'r gofyniad mewn perthynas â gwaith ailfodelu, dylent gysylltu â'r tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

O ran systemau dŵr 'mygu a niwl mân' (*mist suppression*), dylent gydymffurfio â Safon Brydeinig BS 8458. Pe baech yn dewis gosod system o'r math hwn byddai angen cyflwyno achos busnes priodol i dîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

4.2.8 Acwsteg (BB93)

Mae profi acwstig, i ddangos eich bod yn cydymffurfio â Bwletin Adeiladu 93 (BB93), yn ofyniad o dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a rhaid i bob ysgol sy'n cael grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ddangos ei bod yn cydymffurfio â'r safonau. Mae'r amod hwn hefyd yn cynnwys gofyniad ar i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach gael prawf cyn cwblhau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â BB93. Ar hyn o bryd, mae profi acwstig yn argymhelliad o dan y Rheoliadau Adeiladu.

4.2.9 Teithio Llesol

Dylid cynllunio prosiectau Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu i hwyluso dysgwyr sy'n cerdded a beicio i'r ysgol neu'r coleg. Rhaid i Ddeddf Teithio Lesol (Cymru) 2013 a'r mapiau cysylltiedig gynnwys yr holl gyfleusterau ysgol ac mae angen i awdurdodau lleol gynllunio a datblygu rhwydweithiau teithio integredig fel y gall dysgwyr, staff ac ymwelwyr fel ei gilydd deithio'n weithredol i safleoedd ysgol neu goleg. Mae'r Canllawiau Dylunio Teithio Llesol yn nodi'r llwybrau safonau y disgwylir iddynt eu bodloni. Mae angen i'r cynigion ddangos bod mannau gollwng a chasglu diogel ar gael lle bo angen ar gyfer bysiau ysgol neu goleg, ac i leihau, cyn belled ag y bo modd, symudiadau cerbydau preifat yng nghyffiniau safleoedd yr ysgol neu'r coleg.

4.2.10 Hygyrchedd

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn hyrwyddo mynediad i bawb. Disgwylir i ysgolion a sefydliadau addysg bellach sy'n cael eu cefnogi drwy'r Rhaglen sicrhau bod eu hadeiladau yn caniatáu mynediad i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr sy'n anabl. Mae

Comisiwn Dylunio Cymru wedi bod yn darparu hyfforddiant ar ddylunio cynhwysol ar draws Cymru ac wedi cyhoeddi [llawlyfr](#).

Mae pob llythyr cytundeb i godi ysgolion newydd ac ailwampio hen ysgolion yn cynnwys cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, gan gynnwys deddfwriaeth ar gydraddoldeb a hygyrchedd. Mae yna gymal hefyd ar gyfleoedd cyfartal, fel na chaiff yr ysgol na'r coleg fel sefydliad sy'n darparu gwasanaethau wahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail rhyw, hil neu anabledd. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio [canllawiau](#) statudol ar greu a chynnal cynlluniau hygyrchedd i ysgolion.

4.2.11 Lleihau Carbon

Yn unol ag ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbon ac Adeiladau Sector Cyhoeddus Sero Net, bydd yn ofynnol i bob prosiect o fis Ionawr 2022 ymlaen ddangos technegau a thechnolegau lleihau allyriadau carbon a chyflawni Gweithredol Di-Garbon Net a chyrraedd y targed perthnasol ar gyfer carbon ymgorfforedig fel yr amlinellwyd isod;

Blynyddoedd	Targed Carbon Ymgorfforedig
2022 - 2024	Llai na 800 kgCO ₂ /m ²
2025 - 2029	Llai na 600 kgCO ₂ /m ²
2030 - ymlaen	Llai na 350 kgCO ₂ /m ²

Bydd 100% o'r costau ychwanegol yn gymwys ar gyfer cyllid yn y don ariannu bresennol yn amodol ar feincnodau yn unol â'r Safon Cost a Maint (Atodiad 9). Dylai partneriaid cyflawni nodi eu cais yn eu hachos busnes a chwblhau'r templed Prisiad Di-Garbon Net (Atodiad 16a ac b). Bydd angen i gyfrifiadau Gwerth Presennol Net hefyd ddangos cost fesul tunnell o CO₂ a arbedwyd.

Rydym wedi ymrwymo i greu ystâd gynaliadwy ac yn mynnu bod pob un o'n hadeiladau newydd yn cyflawni BREEAM Excellent a sgôr 'A' EPC. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach ystyried darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn ysgolion a cholegau a lle darperir maes parcio ceir ar gyfer datblygiad ysgol neu goleg newydd, rhaid bod gan o leiaf 10% o leoedd parcio ceir bwyntiau gwefru cerbydau trydan. Mae trafnidiaeth ffordd yn ffynhonnell sylweddol o allyriadau carbon a llygredd aer niweidiol a gellir cael mwy o wybodaeth yn y [Strategaeth gwefru cerbydau trydan ar gyfer Cymru \(llyw.cymru\)](#). Gall isadeiledd gwefru annog pobl i gymryd cerbydau trydan ac fel rheol nid yw'n gostus wrth eu cynnwys yn y cam dylunio.

4.2.12 Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ehangach (dyletswydd Adran 6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol) wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.

Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol) yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Wrth gydymffurfio â'r uchod, rhaid i awdurdod cyhoeddus ystyried yr agweddau a ganlyn ar ecosystemau:

- amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt

- y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt
- graddfa ecosystemau
- cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad)
- gallu ecosystemau i addasu.

4.3 Gwariant cymwys

Caiff gwariant cyfalaf ei ddiffinio mewn statud drwy Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Rydym yn defnyddio'r diffiniadau bras a ddarparwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr. Yn gyffredinol mae a wnelo â gwariant ar gyfer:

- Caffael neu greu ased newydd
- Gwella asedau sy'n bodoli'n barod.

“Enhancement”, in relation to any asset, means the carrying out of works which are intended:

- (a) to lengthen substantially the useful life of the asset; or*
- (b) to increase substantially the open market value of the asset; or*
- (c) to increase substantially the extent to which the asset can or will be used for the purposes of or in connection with the school concerned.”*

Yn ei hanfod mae a wnelo gwariant cyfalaf â darparu a gwella asedau sefydlog o bwys yn cynnwys tir, adeiladau a chyfarpar (megis ysgolion, tai newydd a pheiriannau) a fydd o ddefnydd ac o fudd wrth ddarparu gwasanaethau am fwy nag un flwyddyn ariannol.

Weithiau gall fod yn anodd penderfynu a yw gwariant cyfalaf yn cynnal neu'n gwella oes/gwerth ased. Mae'r tabl isod yn rhoi rhai geiriau allweddol sy'n gallu dangos ai cyfalaf ynteu reffeniw yw gwariant.

Geiriau allweddol yn dynodi gwariant Cyfalaf	Geiriau allweddol yn dynodi gwariant Refeniw
Gwella, Uwchraddio, Ymestyn, Adeiladu neu Brynu	Atgyweirio, Cynnal a Chadw, Newid tebyg am debyg, Adfer neu Adnewyddu

Mae gwariant cyfalaf ar gyfer ysgolion/pwrpasau addysgol yn cynnwys y canlynol:

- Cost caffael tir ac adeiladau
- Cost gwaith adeiladu newydd
- Cost estyniadau i adeiladau presennol
- **Gwella*** tir, ffyrdd neu adeiladau **(o fewn ôl troed yr ysgol)**
- Gellir cyfalafu prynu cyfrifiaduron/cyfarpar cyfrifiadurol os ydynt yn rhan o brosiect cyfalaf ar raddfa fawr, yn cynnwys ceblau a chaledwedd cysylltiedig.

**Gwellla* yw lle mae arian yn cael ei wario ar ased sy'n bodoli'n barod a bod hynny'n cynyddu'i werth neu'n ymestyn ei oes ddefnyddiol yn sylweddol. Nid yw'n cynnwys gwaith atgyweirio a chynnal a chadw arferol.

Mae arian y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael ei dargedu tuag at ailfodelu ac ailadeiladu:

- Ailfodelu – uwchraddio adeilad presennol yn helaeth ac ailddylunio'r ystafelloedd (e.e. uwchraddio i gyd-fynd â'r cwricwlwm, cyfleusterau newydd a chydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabaledd).
- Ailadeiladu – e.e. dymchwel rhannol/llwyr ac ailadeiladu yn unol â safonau modern (hy safon Ysgolion ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif).

4.3.1 Costau a maint ysgolion newydd

I sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu'n deg a bod ein hysgolion yn cynnig safon gyson ledled Cymru, rydym yn cynghori y dylid cynllunio ysgolion yn unol â maint mwyaf posibl BB98 (uwchradd) a BB99 (cynradd).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhoi Safon Costau a Maint ar waith ar gyfer y Rhaglen. Dylai ein safon fod yn gymwys i'r gost adeiladu a rhoi cyfanswm ysgol, gan roi hyblygrwydd llawn i awdurdodau lleol deilwra'r ysgol i adlewyrchu eu hanghenion. Ni fydd y safon yn atal awdurdodau lleol rhag codi ysgolion mwy o faint os dymunir; fodd bynnag, defnyddir y safon i gyfrifo uchafswm y cyllid sy'n daladwy gan Lywodraeth Cymru.

Dyma restr o'r elfennau y mae angen eu cynnwys yng nghost safonol ysgol newydd sbon:

- arolygon
- ffioedd
- costau cynllunio
- costau dylunio
- gwaith rhagarweiniol
- gorbenion ac elw
- chostau symud
- adeiladu (gan gynnwys isadeiledd, uwchadeiledd, gorffeniadau mewnol, ffitiadau a dodrefn sydd ynghlwm wrth yr adeilad yn ffisegol, a gwasanaethau)
- gwaith allanol (gan gynnwys darpariaeth chwarae a chwaraeon arbenigol awyr agored), megis caeau 3G a MUGA, llefydd parcio, tirlunio a systemau draenio)
- arian wrth gefn/chwyddiant/lwfans risgiau (dylai'r costau hyn gael eu lleihau yn ystod y broses dendro)

Mae'r safon yn cynrychioli cost lawn codi cyfleuster newydd ar safle glas gwastad, heb fod angen dymchwel hen adeilad, a heb fod unrhyw broblemau'n codi o ran cyflwr y ddaear o dopograffi'r safle na halogiad y tir, gyda dull safonol o ymdrin â'r sylfeini. Os na fydd y safle ar dir glas gwastad, gwerthfawrogwn y ffaith y gall costau annormal eraill godi a all gael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru.

Gallai'r costau annormal cymwys gynnwys:

- cael gwared ar asbestos
- glanhau tir halogedig
- delio â phroblemau mwyngloddio hanesyddol

- gosod seilbyst neu ateb arall o ran y sylfeini sy'n angenrheidiol oherwydd cyflwr y ddaear
- gwneud y safle'n wastad oherwydd y topograffi

Gweler **Safon Costau a Maint (Atodiad 9)** i gael gweld rhestr lawn y meintiau a'r costau sydd wedi'u capio ar gyfer adeiladu ysgolion newydd. Dylai awdurdodau lleol restru holl gostau'r prosiect yn y Templed Costau Prosiect er mwyn ein galluogi i benderfynu a ellir eu cyllido drwy Lywodraeth Cymru. Bydd yn rhaid darparu tystiolaeth gadarn os bydd ardal y prosiect neu gostau'r prosiect yn uwch na'r hyn a welir yn y fformiwlâu hyn i'w hystyried gan y Panel Buddsoddi Addysg.

Er enghraifft, ni fyddai gwaith priffyrdd y tu hwnt i ffiniau'r ysgol neu goleg yn gymwys i gael cyllid o dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy .

4.3.2 Ffioedd proffesiynol

Gofynnir inni'n aml a fydd Llywodraeth Cymru'n talu ffioedd proffesiynol fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy . At ei gilydd dim ond y costau hynny y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod ag ased i gyflwr gweithio y mae modd eu hystyried yn wariant cyfalaf.

Gall gwariant cyfalaf gynnwys ffioedd penseiri a syrfewyr lle maent yn arwain at brynu neu adeiladu adeilad. Byddwn yn ystyried ffioedd proffesiynol o **Gam 2 RIBA** ymlaen (ffioedd dylunio penseiri ac ati) yn gostau cyfalaf os caiff yr achos busnes priodol ei gymeradwyo a bod yr ased yn cael ei greu/adeiladu. Fodd bynnag, lle wynebwr ffioedd yng nghyfnodau cynnar iawn rhaglen gyfalaf, mewn perthynas â'r camau Cychwyn a Briff Strategol (Camau 0-1 RIBA); byddant yn cael eu hystyried yn weithgareddau refeniw.

Gallwch sgorio ffioedd a wynebwrdd mewn blynyddoedd ariannol blaenorol, sy'n cael eu hystyried yn gyfalaf, yn erbyn cyfraniad 35% awdurdod lleol/sefydliad addysg bellach.

Rhaid manylu ar hyn yn adran Achos Ariannol yr achos busnes a gyflwynir fel ein bod yn deall pa ran o'r prosiect(au) rydyn ni'n ei hariannu. Mae hyn yn dibynnu ar gymeradwyo'r Achos Busnes Llawn/Achos Cyfiawnhad Busnes a gyflwynir.

Lle wynebwrdd costau drwy ddefnyddio timau dylunio mewnol neu wasanaethau ymgynghorol sydd ynghlwm wrth awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach, rhaid cadw at y rheolau canlynol o ran gwariant cymwys:

- Timau dylunio mewnol sydd â chyllideb ganolog wedi'i dyrannu iddynt o fewn yr awdurdod lleol – nid yw'r rhain yn gymwys am grant.
- Timau dylunio mewnol heb gyllideb ganolog wedi'i phennu iddynt, ond sy'n codi ffioedd ar adrannau eraill sy'n defnyddio'u gwasanaethau. Yn yr achos hwn, gellir hawlio costau cyflogau'r tîm dylunio, cyflog, costau Yswiriant Gwladol a phensiwn yn ôl. Ni fyddai'r argostau, sy'n cynnwys costau swyddfeydd, y gyflogres a chymorth ariannol ac ati yn gymwys.
- Adrannau mewnol sydd wedi'u sefydlu fel gwasanaeth ymgynghorol, e.e. busnes ar wahân i'r awdurdod lleol sy'n gweithredu fel endid masnachol – byddai'r swm cyfan yn gymwys.

Lle nad yw costau awdurdod lleol a sefydliadau addysg bellach yn gymwys o dan y meini prawf uchod, gellir eu defnyddio fel rhan o gyfraniad 35% yr awdurdod lleol a'r sefydliad addysg bellach at gost y prosiect.

4.3.3 Mynediad priffyrdd

Mae arian cyfalaf yn cael ei ddarparu i ailadeiladu neu ailfodelu ysgolion, felly gellir priodoli arian grant i'r seilwaith sydd wedi'i gynnwys o fewn ffiniau'r ysgol. Er enghraifft, lle mae angen gwneud gwaith i wella'r mynediad ar briffyrdd i'r ysgol, ni fyddai hynny'n gymwys ar gyfer grant Llywodraeth Cymru, a byddai'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ei ariannu.

4.3.4 Tir

Rydym yn ystyried ceisiadau am gyllid ar gyfer safleoedd newydd fesul achos, a byddem yn chwilio am dystiolaeth bod safle dan sylw yn opsiwn priodol. Lle cymeradwyir costau prynu tir drwy ein strwythur llywodraethiant, gallai'r rhain gael eu talu gan Lywodraeth Cymru yn ôl cyfradd ymyrraeth berthnasol y prosiect.

4.3.5 Costau annormal

Gallai'r costau annormal cymwys gynnwys:

- cael gwared ar asbestos
- glanhau tir halogedig
- delio â phroblemau mwyngloddio hanesyddol
- gosod seilbyst neu ateb arall o ran y sylfeini sy'n angenrheidiol oherwydd cyflwr y ddaear

gwneud y safle'n wastad oherwydd y topograffi

4.3.6 Cyfleusterau hamdden a chymunol

Rydym yn annog adeiladu asedau hyblyg, a byddem yn cefnogi prosiectau sy'n ymgorffori gofodau hyblyg y mae modd i'r ysgol / coleg a'r gymuned leol neu glybiau eu defnyddio, er enghraifft, neuaddau chwaraeon, caeau chwarae a darpariaethau a chyfleoedd chwarae.

Anogir awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach i feddwl yn arloesol am y gwasanaethau a ddarperir yn eu hardal, a sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Ni fydd unrhyw ardaloedd a godir yn llwyr at ddefnydd masnachol / cymunedol yn cael eu hystyried yn gymwys.

Mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu dogfen ganllaw, *Cyfleusterau ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Glasbrint ar gyfer chwaraeon a hamdden egni'ol yng Nghymru*, i gefnogi ymgyrch Llywodraeth Cymru i hwyluso'r ffordd i bobl gymryd rhan reolaidd mewn chwaraeon ac ymarfer corff, a helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau i sicrhau bod cyfleusterau ledled Cymru yn briodol, yn hygyrch, yn gynaliadwy ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ddogfen i'w gweld yn www.sportsthinktank.com. Anogir unrhyw awdurdodau lleol sy'n ystyried prosiectau seilwaith cyfalaf sy'n cynnwys darparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden i ystyried cynnwys y Glasbrint a defnyddio'i fframwaith fel y bo'n briodol.

At hynny, yn dilyn cyhoeddi adroddiad Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, sef [Increasing the Use of School Facilities](#), ar sut y gall cymunedau wneud mwy o ddefnydd o gyfleusterau ysgolion, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried sut i weithredu argymhellion yr adroddiad.

4.3.7 Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir

O dan baragraff 5 o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddyfarnu cymorth grant hyd at 85% o'r gwariant cymwys, a rhaid i'r llywodraethwyr eu hunain ariannu'r 15% sy'n weddill. Mae gwariant cymwys yn golygu gwariant sy'n ymwneud â darparu, newid neu atgyweirio adeiladau neu gyfarpar yr

ysgol. Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i gyrrff llywodraethu Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr a/neu'r esgobaeth ariannu 15% o unrhyw brosiect cyfalaf pan fyddant yn ceisio cymorth grant gan Lywodraeth Cymru.

Mae cynnal fforddiadwyedd y don gyntaf hon yn dyngedfennol i lwyddiant y rhaglen drwyddi draw ac mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod cyfyngiadau'r gyllideb gyfalaf ochr yn ochr â maint ac uchelgais rhaglen Band B. Mae'n hanfodol, felly, gwneud yn fawr o bob ffynhonnell ariannu briodol; yn cynnwys cyfraniadau priodol gan yr holl randdeiliaid perthnasol, yn cynnwys y sector gwirfoddol a gynorthwyr.

Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth ag ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr wrth ddatblygu prosiectau ysgol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran datblygu Rhaglen Band B, a dylai awdurdodau lleol ymgynghori â'u Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol perthnasol i sicrhau bod blaenoriaethau'r sector hwn yn cael eu nodi. O ran Band B, bydd lefel ymyrryd Llywodraeth Cymru yn aros ar 85% ac ni fydd yn cael ei gynnwys yn nyraniad 65% yr awdurdod lleol.

I gael gwybodaeth benodol am Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr gan gynnwys y grant cyfalaf cynnal a chadw (CRAMP) a chyllid Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, cysylltwch â'r tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Bydd angen i'r rheini sy'n hyrwyddo prosiect ar gyfer ysgol wirfoddol a gynorthwyr neu ysgol sylfaen ymgynghori â CThEM i drafod y sefyllfa o ran TAW.

5. Monitro a gwerthuso prosiect

5.1 Monitro arferol

Gwneir taliadau'n chwarterol ac ar sail y gwariant yr aed iddo. Ni ryddheir taliadau cyn y bydd eu hangen.

Gwneir gwaith monitro yn chwarterol. Bydd hyn yn golygu:

- cadarnhau'r gwariant hyd hynny
- diweddarau'r amserlen yn yr Achos Busnes a gyflwynwyd;
- diweddarau'r Matrics (Llif arian).

Mae'n hynod bwysig peidio ag edrych ar y dogfennau hyn ar eu pen eu hunain. Mae angen cymeradwyo'r Achos Busnes cyn y ceir rhyddhau gwariant, a dylid dangos hyn yn y Matrics.

Mae'n hollbwysig hefyd fod y ffigurau yn y Matrics yn gywir, nad eir uwchlaw gwerth amlen y rhaglen a gymeradwywyd a bod holl gyflwyniadau'r Achos Busnes yn cyd-fynd â'r wybodaeth ar y Matrics.

Oherwydd y pwysau sylweddol ar gyllideb Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, dylid nodi y byddem yn disgwyl i achosion busnes a cheisiadau am gyllid ddod i law ar amser a bod ymgeiswyr yn cadw at broffiliau prosiect. Gall Llywodraeth Cymru ystyried dechrau dwys i broffil prosiect (hy gallai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth grant am flwyddyn neu ddwy gyntaf y prosiect ac ati) ond cyn cymeradwyo hynny byddai angen dogfennau ategol arnom oddi wrth y Swyddog Adran 151 a'r Prif Weithredwr i gadarnhau bod arian awdurdod lleol ar gael i gwblhau'r prosiect.

Nid oes gan y Gyfarwyddiaeth Addysg y capasiti o fewn trefniadau ariannol Llywodraeth Cymru i gario unrhyw adnoddau sydd heb eu gwario (llithriant) drosodd o un flwyddyn i'r nesaf.

Bydd angen **amrywiad cyfreithiol** i'r llythyr cytundeb grant llofnodedig wrth ymateb i gais am ddiwygio'r proffiliau ariannu. Ym mhob achos rhaid gwneud ceisiadau o'r fath drwy'r Tîm Cyllid Cyfalaf a hynny o fewn cyfnod rhesymol o amser.

5.2 Archwiliadau

Mae pob prosiect sy'n cael grant yn cael archwiliad blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Sylwch fod rhaid cadw cofnodion priodol o'r gwariant, yn cynnwys anfonebau, taflenni amser a thystiolaeth o brosesau caffael sy'n cydymffurfio.

5.3 Adroddiad Cau

Yn ddiweddar, mae'r ddogfen hon wedi'i diwygio a dylid ei chyflwyno ar ôl cwblhau'r prosiect. Cofiwch nad oes angen ichi anfon y tystysgrifau i Lywodraeth Cymru erbyn hyn pan gyflwynir adroddiadau cau. Fodd bynnag, rhaid i Swyddog Adran 151 lofnodi'r dogfennau sy'n ymwneud â chadw arian yn ôl at ddibenion archwilio unwaith y bydd yr holl dystysgrifau/dogfennau yn eu lle.

Gweler y **Templed ar gyfer Adroddiad Cau (Atodiad 13)**.

5.4 Buddion

Mae gwireddu buddion yn hanfodol i lwyddiant y Rhaglen. Bydd angen i adroddiadau cau roi sylw i'r buddion canlynol:

- Cadarnhad bod ased wedi cael ei greu yn unol â'r Achos Busnes a gymeradwywyd
- Bod sgôr BREEAM 'Ragorol' wedi ei chyflawni
- Bod sgôr EPC 'A' wedi ei chyflawni
- Bod chwistrellwyr dŵr wedi cael eu gosod
- Bod y targedau o ran acwsteg ac ailgylchu wedi'u cyrraedd
- Cyflawnwyd buddion yr adroddir arnynt drwy'r Adnodd Mesur Budd i'r Gymuned, drwy gydol oes y prosiect (rhaid i'r adnodd mesur gael ei gwblhau bob blwyddyn, gydag adnodd terfynol yn cael ei gyflwyno pan fydd y prosiect wedi'i gwblhau).
- Lle defnyddiwyd Cyfrif Banc Prosiectau
 - % y taliadau a wnaed o fewn 30 diwrnod i bawb sy'n destun y cyfrif
 - nifer yr is-gontractwyr haen 2 a haen 3 sy'n destun y cyfrif
 - % gwerth y contract a dalwyd drwy'r cyfrif

Yn ogystal, rhaid cyflwyno'r dyddiadau dechrau a gorffen adeiladu gwirioneddol a chwblhau holiadur gwerthuso prosiect Llywodraeth Cymru fel rhan o broses yr adroddiad cau.

Gwneir asesiadau pellach hefyd wedyn i wirio buddion eraill sy'n ddisgwyliedig o ganlyniad i'r prosiect, yn cynnwys:

- gostyngiad mewn capasiti dros ben / bod capasiti digonol wedi cael ei wireddu
- gwelliannau i ddeilliannau dysgwyr
- unrhyw swyddi / prentisiaethau a grëwyd
- gostyngiad yn y cyfraddau absenoldeb ac ati
- cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n teithio'n weithredol i'r ysgol

- .

5.5 Cadw arian yn ôl

Bydd 2.5% o'r grant yn cael ei ddal yn ôl ar bob prosiect nes bydd adroddiad cau boddhaol a'r dogfennau cysylltiedig wedi dod i law. Dylai'r adroddiad cau a'r ddogfennaeth ddod i law o fewn deunaw mis i gwblhau'r prosiect.

5.6 Cyhoeddusrwydd

Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru a noddwyr prosiectau'n gweithio gyda'i gilydd i roi cymaint â phosibl o gyhoeddusrwydd i brosiectau ac i dynnu sylw at y cyfraniad y mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn ei wneud yng Nghymru.

Dylid cadw cofnodion o gyhoeddiadau ffurfiol ac anffurfiol, erthyglau yn y wasg ac mewn cylchgronau, cyfweiliadau ar y cyfryngau (teledu a radio) a lansiadau ac agoriadau swyddogol fel tystiolaeth o'r mesurau cyhoeddusrwydd a roddir ar waith yn ystod oes eich prosiect.

Mae'r elfennau hyn yn ofynnol:

- Rhaid anfon pob arwydd, plac a datganiad i'r wasg at Lywodraeth Cymru cyn eu rhyddhau
- Rhaid i arwyddion safle yn ystod y cyfnod adeiladu gydnabod y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru
- Rhaid i bob datganiad i'r wasg gynnwys cyfeiriad at y ffynhonnell ariannu yn y paragraffau agoriadol
- Rhaid i unrhyw gyhoeddiad am y prosiect gyfeirio at y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru
- Rhaid i'ch gwefan gydnabod yn glir y cymorth ariannu a gafwyd gan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
- Rhaid ichi roi gwybod i dîm y Rhaglen am ddigwyddiadau ac agoriadau i ddod sy'n ymwneud â'r prosiect er mwyn rhoi cyfle i'r Gweinidogion gymryd rhan
- Dylid cyflwyno lluniau o'r ysgolion a'r colegau cyn ac ar ôl y gwaith adeiladu at ddibenion cyhoeddusrwydd.

I gael gweld y [canllawiau llawn ar gyhoeddusrwydd](#) ewch i'n gwefan.

5.7 Caffael

Dylid gwneud y gwaith caffael drwy fframwaith Llywodraeth Cymru a gymeradwywyd, e.e. SEWSCAP, Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol y De-orllewin neu [Fframwaith Contractwyr Ysgolion ac Adeiladau Cyhoeddus Gogledd Cymru](#) neu un arall o brosesau tendro cystadleuol Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) yn unol ag egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru.

5.8 Adolygiadau Gateway

Caiff Adolygiad Gateway ei gynnal gan awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach er mwyn rhoi sicrwydd bod modd darparu'r rhaglen. Dylai awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach ystyried a oes angen cynnal adolygiad pellach ar adegau penderfyniadau allweddol yn ystod oes y rhaglen.